

Stori Alison



Alison Kibblewhite yw Pennaeth Lleihau Risg Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a hi oedd y ferch gyntaf i fod yn ddiffoddwr tân pan ymunodd â'r Gwasanaeth yn 1995. Roedd Alison wedi gweithio mewn swydd naw tan bump mewn banc ar y stryd fawr am naw mlynedd ar ôl cael ei hannog i fynd am swyddi traddodiadol i fenywod yn yr ysgol cyn dod ar draws y gwasanaeth tân yn ddamweiniol bron. Dyna oedd y penderfyniad gorau a wnaeth erioed, meddai.

“Doeddwn i erioed wedi ei ystyried o'r blaen ond pan wnaeth fy mrawd gais, dywedwyd wrtho eu bod am recriwtio menywod yn arbennig. Dwi bob amser wedi cadw'n heini drwy redeg a gwneud hyfforddiant cylchol felly fe wnaeth fy mrawd gael ffurflen gais i mi. Fe wnes i ei llenwi ond wnes i erioed breuddwydio y byddwn i'n mynd fawr ymhellach.”

Roedd Alison wrth ei bodd pan gafodd ei dewis i fynd drwy'r broses, er roedd 'na anawsterau i'w goresgyn hefyd. Nid oedd cit penodol i fenywod, nid oedd cawod benodol i fenywod ac roedd llawer o ansicrwydd ymysg ei chyd-weithwyr.

“Roedd yr uwch reolwyr yn poeni sut byddai'r diffoddwyr tân eraill yn ymateb pan fyddwn i'n cyrraedd fy ngorsaf gyntaf ar ôl 17 wythnos o hyfforddiant. Cafodd llawer o reolau eu gwneud yn dweud beth allen nhw ei wneud a beth na ddylen nhw ei wneud. Roedd llawer o'r cyd-weithwyr yn betrus iawn ohona i felly. Dywedodd un diffoddwr tân fod ei wraig wedi dweud wrtho y byddai angen iddo drosglwyddo i orsaf arall!

“Fe gymerodd ychydig ddyddiau iddyn nhw ddod dros eu pryderon ynghylch cael menyw ar ddyletswydd ac fe ddaethon nhw'n eitha amddiffynnol ohona i. Pan oedden ni'n ymarfer dril neu mewn digwyddiadau, bydden nhw'n trio fy helpu os oedden nhw'n meddwl byddai rhywbeth yn rhy drwm neu'n rhy anodd, ond fe wnes i ddal fy nhir a dweud y gallwn i ei wneud drosof fy hun. Unwaith i mi brofi y gallwn wneud, daeth hyn i ben yn go sydyn. Nid 'menyw' oeddwn i ar ôl hynny ond aelod o'r tîm oedd yn gallu gwneud yr un peth yn union â nhw.”

Gyda dim ond 2.4% o ddiffoddwyr tân yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn ferched, mae Alison yn awyddus i ddenu rhagor o fenywod i ymuno â nhw ac i hyfforddi'n ddiffoddwyr tân.

Dyma'r hyn sydd ganddi i'w ddweud wrth ferched sydd â diddordeb mewn gwneud cais: “Peidiwch â meddwl bod yn rhaid i chi fod y person cryfaf a mwya heini i ymuno â'r gwasanaeth. Rydyn ni bob amser yn gweithio mewn tîm ac mae llawer o'r sgiliau'n dechnegau byddwch chi'n eu dysgu wrth i chi ymarfer mwy a mwy. Os ydych chi'n mwynhau

helpu pobl ac os ydych chi am wneud gwahaniaeth i fywydau pobl, yna mae'r swydd yn berffaith i chi. Rydych chi'n aml yn delio â'r diwrnod gwaethaf ym mywyd rhywun a gallwch chi ei wneud yn well – dyna'r boddhad.

“Tua 5% o'ch amser fydd yn golygu ymateb i ddiwyddiadau. Mae'r amser sy'n weddill yn cael ei dreulio yn hyfforddi, ymweld ag adeiladau lle mae'r risg yn uchel er mwyn cyfarwyddo â sefyllfaoedd posibl, ymarfer dril a chyflwyno sesiynau diogelwch rhag tân yn y gymuned, mewn ysgolion neu gyda grwpiau cymunedol. Cewch gyfle i fynd i nifer o lefydd diddorol a chyffrous na ydyn nhw'n agored i aelodau o'r cyhoedd. Dwi wedi bod mewn llongau tanfor niwclear, mewn carchardai, llongau rhyfel a'r tu ôl i'r llenni yn Stadiwm y Principality.”

Mae Alison yn gefnogol iawn o'r ymgyrch #DymaFi: “Credaf y dylai'r gwasanaeth tân ac achub adlewyrchu cymdeithas yn well. Mae nifer o gyfleoedd gwych i ferched a menywod gael gyrfa sy'n rhoi boddhad a hefyd ddyletswyddau gwaith sy'n amrywiol iawn gan weithio'n rhan o dîm anhygoel. Ddylai menywod byth ddweud bod rhywbeth yn amhosib. Mae gennym ni i gyd sgiliau a phrofiadau gwahanol i'w cynnig i'r rôl a byddwn i'n hoffi gweld rhagor o ferched a menywod yn cael eu hannog i fynd yn ddiffoddwyr tân fel opsiwn ar gyfer gyrfa gydol oes.”

I gael rhagor o wybodaeth am ymuno â'r gwasanaeth tân ewch i: <http://www.southwales-fire.gov.uk/Cymraeg/gyrfaoedd/Pages/Together.aspx>